



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 Rhif 179 (Cy. 45)

2019 No. 179 (W. 45)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2019

The Nutrition (Miscellaneous
Amendments) (Wales) (EU Exit)
Regulations 2019

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

These Regulations are made in exercise of the powers in paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21(b) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth i Gymru ym maes maethiad.

The Regulations make amendments to secondary legislation for Wales in the field of nutrition.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

An impact assessment has not been produced for this instrument as no, or no significant, impact on the private or voluntary sector is foreseen.

2019 Rhif 179 (Cy. 45)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2019**

Gofynion sifftio wedi eu bodloni 28 Ionawr 2019

Gwnaed 4 Chwefror 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 6 Chwefror 2019

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2).

2019 No. 179 (W. 45)

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

FOOD, WALES

**The Nutrition (Miscellaneous
Amendments) (Wales) (EU Exit)
Regulations 2019**

Sift requirements satisfied 28 January 2019

Made 4 February 2019

Laid before the National Assembly for Wales
6 February 2019

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2)*

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21(b) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1).

The requirements of paragraph 4(2) of Schedule 7 to that Act (relating to the appropriate scrutiny procedure for these Regulations) have been satisfied.

There has been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(2).

(1) 2018 p. 16.

(2) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t. 14).

(1) 2018 c. 16.

(2) OJ No. L 31, 1.2.2002, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 596/2009 (OJ No. L 188, 18.7.2009, p. 14).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000

2.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae rheoliad 2 (dehongli) wedi ei ailrifo fel paragraff (1) o'r rheoliad hwnnw.

(3) Ar ôl paragraff (1) fel y'i hailrifwyd felly, mewnosoder—

“(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at gydymffurfedd â darpariaeth yn y Gyfarwyddeb i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at gydymffurfio â'r ddarpariaeth honno fel y byddai'n ofynnol pe bai'r ddarpariaeth yn ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae Erthyglau 4 i 5 o'r Gyfarwyddeb, a'r Atodiad iddi, i'w darllen yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.”

(4) Yn rheoliad 5A(2) (cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau gwella), ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle “Atodlen” rhodder “Atodlen 1”.

(5) Ailrifer yr Atodlen yn Atodlen 1.

(6) Ar ôl Atodlen 1 fel y'i hailrifwyd felly, mewnosoder—

“ATODLEN Rheoliad 2(3)

Addasiadau i'r Gyfarwyddeb

1. Mae'r addasiadau i'r Gyfarwyddeb fel a ganlyn.

2. Mae Erthygl 4(2) i'w darllen fel pe bai “Article 9 of Regulation (EU) No 1169/2011” wedi ei roi yn lle “Article 3 of Directive 79/112/EEC”.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Nutrition (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019.

(2) The Regulations come into force on exit day.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Amendment of the Medical Food (Wales) Regulations 2000

2.—(1) The Medical Food (Wales) Regulations 2000(1) are amended as follows.

(2) Regulation 2 (interpretation) is renumbered as paragraph (1) of that regulation.

(3) After paragraph (1) as so renumbered, insert—

“(2) In these Regulations, any reference to compliance with a provision of the Directive is to be read as a reference to complying with that provision as would be required if the provision formed part of domestic law.

(3) For the purposes of these Regulations, Articles 4 to 5 of, and the Annex to, the Directive are to be read subject to the modifications set out in Schedule 2 to these Regulations.”

(4) In regulation 5A(2) (application of the improvement notice provisions of the Act), in each place where it occurs, for “Schedule” substitute “Schedule 1”.

(5) The Schedule is renumbered as Schedule 1.

(6) After Schedule 1 as so renumbered, insert—

“SCHEDULE 2 Regulation 2(3)

Modifications to the Directive

1. The modifications of the Directive are as follows.

2. Article 4(2) is to be read as if for “Article 3 of Directive 79/112/EEC” there were substituted “Article 9 of Regulation (EU) No 1169/2011”.

(1) O.S. 2000/1866 (Cy. 125) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247), O.S. 2008/2602 (Cy. 228), O.S. 2014/1102 (Cy. 110), O.S. 2016/639 (Cy. 175) ac O.S. 2018/806 (Cy. 162).

(2) Mewnosodwyd rheoliad 5A gan O.S. 2016/639 (Cy. 175).

(1) S.I. 2000/1866 (W. 125) as amended by S.I. 2005/3254 (W. 247), S.I. 2008/2602 (W. 228), S.I. 2014/1102 (W. 110), S.I. 2016/639 (W. 175) and S.I. 2018/806 (W. 162).

(2) Regulation 5A was inserted by S.I. 2016/639 (W. 175).

3. Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff 1—
- (i) “where a product is manufactured outside of the United Kingdom” wedi ei roi yn lle “where a product is manufactured in a third country”;
 - (ii) “territories within the United Kingdom” wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad cyntaf at “Member States”;
 - (iii) y geiriau “Member States may, if they can demonstrate that notification is not necessary in order to monitor those products efficiently in their territory, not impose that obligation” wedi eu hepgor.
- (b) ym mharagraff 2, y canlynol wedi ei roi yn lle “are those referred to in Article 9(4) of Directive 89/398/EEC”—

“are—

- (a) in respect of England, the Secretary of State,
- (b) in respect of Wales, the Welsh Ministers,
- (c) in respect of Scotland, Food Standards Scotland,
- (d) in respect of Northern Ireland, the Food Standards Agency.”

4. Yn yr Atodiad, mae paragraff 4 i'w ddarllen fel pe bai “Directive 2006/141/EC(1)” wedi ei roi yn lle “Directive 91/321/EEC and its subsequent modifications”.

Diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003

3.—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn rheoliad 2 (dehongli) hepgorer—
- (a) y diffiniad o “Cyfarwyddeb 2001/83”;
 - (b) paragraffau (3) a (4).

3. Article 5 is to be read as if—

- (a) in paragraph 1—
- (i) for “where a product is manufactured in a third country” there were substituted “where a product is manufactured outside of the United Kingdom”;
 - (ii) for the first reference to “Member States” there were substituted “territories within the United Kingdom”;
 - (iii) the words “Member States may, if they can demonstrate that notification is not necessary in order to monitor those products efficiently in their territory, not impose that obligation” were omitted.
- (b) in paragraph 2, for “are those referred to in Article 9(4) of Directive 89/398/EEC.” there were substituted—

“are—

- (a) in respect of England, the Secretary of State,
- (b) in respect of Wales, the Welsh Ministers,
- (c) in respect of Scotland, Food Standards Scotland,
- (d) in respect of Northern Ireland, the Food Standards Agency.”

4. In the Annex, paragraph 4 is to be read as if for “Directive 91/321/EEC and its subsequent modifications” there were substituted “Directive 2006/141/EC(1)”.

Amendment of the Food Supplements (Wales) Regulations 2003

3.—(1) The Food Supplements (Wales) Regulations 2003(2) are amended as follows.

- (2) In regulation 2 (interpretation) omit—
- (a) the definition of “Directive 2001/83”;
 - (b) paragraphs (3) and (4).

(1) OJ Rhif L 401, 30.12.2006, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 (OJ Rhif L 25, 2.2.2016, t. 1).

(2) O.S. 2003/1719 (Cy. 186) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247), O.S. 2009/3252 (Cy. 282), O.S. 2011/1043 ac O.S. 2014/2303 (Cy. 227).

(1) OJ No L 401, 30.12.2006, p. 1, last amended by Commission Delegated Regulation (EU) 2016/127 (OJ No L 25, 2.2.2016, p. 1).

(2) S.I. 2003/1719 (W. 186) as amended by S.I. 2005/3254 (W. 247), S.I. 2009/3252 (W. 282), S.I. 2011/1043 and S.I. 2014/2303 (W. 227).

(3) Yn rheoliad 3(2) (cwmpas y rheoliadau), yn lle “fel y’u diffinnir gan Gyfarwyddeb 2001/83” rhodder “fel y’u diffinnir gan reoliad 2(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(1)”.

(4) Yn rheoliad 5(2) (gwaharddiadau gwerthu sy’n ymwneud â chyfansoddiad ychwanegion bwyd)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a) yn lle “Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/46” rhodder “Atodlen 1 i Reoliadau Maethiad (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019(3)”;

(ii) yn is-baragraff (b)(i) yn lle “Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/46” rhodder “Atodlen 2 i Reoliadau Maethiad (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019”;

(b) yn lle paragraff (2)(a) rhodder—

“(a) y meini prawf purdeb, os oes rhai, a bennir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir neu mewn rheoliadau sy’n gymwys o ran Cymru ac a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3 o Reoliadau Maethiad (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019; neu”.

(5) Yn rheoliad 6(3)(b)(4) (cyfyngiadau ar werthu sy’n ymwneud â labelu etc ychwanegion bwyd), yn lle “Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/46” rhodder “Atodlen 1 i Reoliadau Maethiad (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019”.

Diwygio Rheoliadau Cafafafa mewn Bwyd (Cymru) 2006

4.—(1) Mae Rheoliadau Cafafafa mewn Bwyd (Cymru) 2006(5) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniadau o “cylchrediad rhydd mewn Aelod-wladwriaethau” a “Gwladwriaeth AEE”;

(b) ar ôl y diffiniad o “y Ddeddf”, mewnosoder—

“ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw gwlad ac eithrio’r Deyrnas Unedig.”

(3) Yn rheoliad 3 (gwaharddiad ar werthu etc. bwyd sydd wedi’i wneud o Gafafafa neu sy’n ei gynnwys) yn lle paragraff (2), rhodder—

(3) In regulation 3(2) (scope of regulations), for “as defined by Directive 2001/83” substitute “as defined by regulation 2(1) of the Human Medicines Regulations 2012(1)”.

(4) In regulation 5(2) (prohibitions on sale relating to composition of food supplements)—

(a) in paragraph (1)—

(i) in sub-paragraph (a) for “Annex I to Directive 2002/46” substitute “Schedule 1 to the Nutrition (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019(3)”;

(ii) in sub-paragraph (b)(i) for “Annex II to Directive 2002/46” substitute “Schedule 2 to the Nutrition (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019”.

(b) for paragraph (2)(a) substitute—

“(a) the purity criteria, if any, specified in retained EU law or in regulations applying in relation to Wales made by the Secretary of State or by the Welsh Ministers under regulation 3 of the Nutrition (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019; or”.

(5) In regulation 6(3)(b)(4) (restrictions on sale relating to labelling etc of food supplements), for “Annex I to Directive 2002/46” substitute “Schedule 1 to the Nutrition (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019”.

Amendment of the Kava-kava in Food (Wales) Regulations 2006

4.—(1) The Kava-kava in Food (Wales) Regulations 2006(5) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

(a) omit the definitions of “EEA State” and “free circulation in member States”;

(b) after the definition of “port health authority”, insert—

““third country” (“*trydedd wlad*”) means a country other than the United Kingdom.”

(3) In regulation 3 (prohibition on sales etc. of food consisting of or containing Kava-kava) for paragraph (2), substitute—

(1) O.S. 2012/1916.

(2) Diwygiwyd rheoliad 5 gan O.S. 2009/3252 (Cy. 282).

(3) O.S. 2019/xx

(4) Diwygiwyd rheoliad 6 gan O.S. 2009/3252 (Cy. 282) ac O.S. 2014/2303 (Cy. 227).

(5) O.S. 2006/1851 (Cy. 194) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2012/1809.

(1) S.I. 2012/1916.

(2) Regulation 5 was amended by S.I. 2009/3252 (W. 282).

(3) S.I. 2019/xx

(4) Regulation 6 was amended by S.I. 2009/3252 (W. 282) and S.I. 2014/2303 (W. 227).

(5) S.I. 2006/1851 (W. 194) as amended by S.I. 2012/1809.

“(2) Ni fydd y gwaharddiad a osodir gan baragraff (1) yn gymwys pan fo’r bwyd sydd wedi’i wneud o Gafa-cafa neu sy’n ei gynnwys yn cael ei fewnforio o drydedd wlad os yw’r bwyd yn cael ei allforio, neu i’w allforio, i drydedd wlad.”

Diwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007

5. Yn rheoliad 4(2)(a) o Reoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007(1) (tramgwyddau a chosbau), hepgorer y geiriau “o’i darllen gydag Erthygl 17(1) (cymhwyso’n drosiannol reolau cenedlaethol)”.

Diwygio Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007

6.—(1) Mae Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(7) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at gydymffurfedd â darpariaeth yn y Gyfarwyddeb i’w ddarllen fel pe bai’n gyfeiriad at gydymffurfio â’r ddarpariaeth honno fel y byddai’n ofynnol pe bai’r ddarpariaeth yn ffurfio rhan o’r gyfraith ddomestig.”

(3) Yn rheoliad 12(3)(a) (sylweddau rhestredig a’u meini prawf purdeb (fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol)), yn lle “yn neddfwriaeth yr UE” rhodder “yng nghyfraith yr UE a ddargedwir”.

Diwygio Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009

7.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, yng ngholofn “y pwnc” o’r tabl—

“(2) The prohibition imposed by paragraph (1) does not apply where the food consisting of or containing Kava-kava is imported from a third country if the food is being, or is to be, exported to a third country.”

Amendment of the Addition of Vitamins, Minerals and Other Substances (Wales) Regulations 2007

5. In regulation 4(2)(a) of the Addition of Vitamins, Minerals and Other Substances (Wales) Regulations 2007(1) (offences and penalties), omit the words “as read with Article 17(1) (transitional application of national rules)”.

Amendment of the Infant Formula and Follow-on Formula (Wales) Regulations 2007

6.—(1) The Infant Formula and Follow-on Formula (Wales) Regulations 2007(2) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), after paragraph (6) insert—

“(7) In these Regulations any reference to compliance with a provision of the Directive is to be read as a reference to complying with that provision as would be required if the provision formed part of domestic law.”

(3) In regulation 12(3)(a) (listed substances and their purity criteria (infant formula and follow-on formula)), for “EU legislation” substitute “retained EU law”.

Amendment of the Food for Particular Nutritional Uses (Addition of Substances for Specific Nutritional Purposes) (Wales) Regulations 2009

7.—(1) The Food for Particular Nutritional Uses (Addition of Substances for Specific Nutritional Purposes) (Wales) Regulations 2009(3) are amended as follows.

(2) In Schedule 1, in the “subject matter” column of the table—

(1) O.S. 2007/1984 (Cy. 165) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2014/2303 (Cy. 227) ac O.S. 2018/806 (Cy. 162).

(2) O.S. 2007/3573 (Cy. 316) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2008/2602 (Cy. 228), O.S. 2011/1043, O.S. 2014/123 (Cy. 13), O.S. 2014/1102 (Cy. 110) ac O.S. 2016/639 (Cy. 175).

(3) O.S. 2009/3254 (Cy. 283) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac O.S. 2016/639 (Cy. 175).

(1) S.I. 2007/1984 (W. 165) as amended by S.I. 2014/2303 (W. 227) and S.I. 2018/806 (W. 162).

(2) S.I. 2007/3573 (W. 316) as amended by S.I. 2008/2602 (W. 228), S.I. 2011/1043, 2014/123 (W. 13), S.I. 2014/1102 (W. 110) and S.I. 2016/639 (W. 175).

(3) S.I. 2009/3254 (W. 283) as amended by S.I. 2011/1043 and S.I. 2016/639 (W. 175).

- (a) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 2(1), yn lle "a gwmpesir gan Gyfarwyddeb 2009/39 Senedd Ewrop a'r Cyngor am fwydydd sydd wedi eu bwriadu at ddefnydd maethol neilltuol" rhodder "(bwydydd y mae gwahaniaeth amlwg rhyngddynt, oherwydd eu cyfansoddiad arbennig neu'r broses o'u gweithgynhyrchu, a bwydydd sydd wedi eu bwriadu ar gyfer eu bwyta'n arferol, sy'n addas at y dibenion maethol a honnir ac sydd wedi eu marchnata mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn addas felly)";
- (b) yn y cofnod sy'n ymwneud ag Erthygl 3(2), yn lle "yr Asiantaeth Safonau Bwyd" rhodder "yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Safonau Bwyd yr Alban neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon";
- (c) yn y cofnodion sy'n ymwneud ag Erthygl 4(2) ac Erthygl 4(3), yn lle "ddeddfwriaeth yr UE" rhodder "gyfraith yr UE a ddargedwir".

- (a) in the entry relating to Article 2(1), for "covered by Directive 2009/39 of the European Parliament and the Council on foodstuffs intended for particular nutritional uses" substitute "(foodstuffs which, owing to their special composition or manufacturing process, are clearly distinguishable from foodstuffs for normal consumption, which are suitable for their claimed nutritional purposes and which are marketed in such a way as to indicate such suitability)";
- (b) in the entry relating to Article 3(2), for "the Food Standards Agency" substitute "the Secretary of State, the Welsh Ministers, Food Standards Scotland or the Food Standards Agency in Northern Ireland";
- (c) in the entries relating to Article 4(2) and Article 4(3), for "EU legislation" substitute "retained EU law".

Diwygio Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016

8.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), hepgorer paragraff (5).

(3) Yn Atodlen 1 (gofynion UE penodedig)(2) yn y cofnod yng ngholofn 1, yn lle "Erthygl 15(1) (rhestr yr Undeb)" rhodder "Erthygl 15(1) (rhestr y DU)".

Amendment of the Food for Specific Groups (Information and Compositional Requirements) (Wales) Regulations 2016

8.—(1) The Food for Specific Groups (Information and Compositional Requirements) (Wales) Regulations 2016(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), omit paragraph (5).

(3) In Schedule 1 (specified EU requirements)(2) in the entry in column 1, for "Article 15(1) (Union list)" substitute "Article 15(1) (UK list)".

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
4 Chwefror 2019

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
4 February 2019

©[©] Hawlfraint y Goron 2019

© Crown copyright 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2016/639 (Cy. 175) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/70 (Cy. 22).
(2) Diwygiwyd Atodlen 1 gan O.S. 2019/70 (Cy. 22).

(1) S.I. 2016/639 (W. 175) as amended by S.I. 2019/70 (W. 22)
(2) Schedule 1 was amended by S.I. 2019/70 (W. 22).

£6.90

W201902051013 02/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/179>

ISBN 978-0-348-20330-1



9 780348 203301